# Beth i'w ddisgwyl pan rydych yn disgwyl etholiad y Senedd

Eich canllaw i beth sy'n mynd ymlaen, pam ddylech chi dalu sylw, a beth mae'n ei olygu i chi a'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaethau

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

# Pam mae'r etholiad hwn yn bwysig i elusennau bach a lleol?

Bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn gwneud penderfyniadau a fydd yn siapio profiadau pobl a gwasanaethau ledled Cymru. Er mai Llywodraeth y DU fydd yn dal i reoli rhai meysydd o wasanaethau cyhoeddus a deddfwriaeth, megis diogelwch cymdeithasol a chyflogaeth, mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ystod o feysydd all effeithio ar eich cleientiaid - a chyfrifoldebau ynghylch lles cymdeithasol.

Gan fod elusennau'n darparu cefnogaeth reng-flaen, mae gennych olwg gwerthfawr i helpu Aelodau o'r Senedd (AS) ddeall y ffordd orau i hyrwyddo eich buddion gyda'r llywodraeth, yn Senedd Cymru a chyda'r brif bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Etholiad yw'r cyfle perffaith i sicrhau eu bod yn talu sylw gan fod angen eich pleidlais arnynt.

**Mae etholiadau'n rhoi dwy ddyletswydd/dau gyfle allweddol i elusennau:**

1. Cefnogi pobl sy'n wynebu materion cymdeithasol cymhleth i gael asiantaeth drwy bleidleisio a rhannu eu profiadau ac awgrymiadau gyda'r bobl sy'n penderfynu.
2. Datblygu staff a gwirfoddolwyr ac adeiladu perthnasau i lywio polisïau'r dyfodol a'r amgylchedd gweithio.

Oes unrhyw faterion/heriau penodol yr hoffech i'ch AS eu deall?

Oes unrhyw beth yr hoffech iddynt ei gyflawni?

**Mae etholiadau'n adeg pan fydd pobl yn debygol o ateb 'oes' i'r rhain.**

Q

Mae etholiadau'r senedd yn gyfleoedd allweddol i elusennau ddod â sylw cenedlaethol a lleol i'w problemau/gwasanaeth/sefydliad, all helpu o ran dylanwadu, codi arian ac effaith gyfathrebu.

Dyma'r amser gorau i sicrhau bod y darpar ymgeiswyr yn deall y materion yr ydych eisiau eu trafod - nid yn unig beth rydych chi'n meddwl y maent eisiau ei glywed.

Mae 60 AS, caiff 40 eu hethol o etholaethau unigol a 20 o ranbarthau ehangach. Mae'r 20 AS rhanbarthol yn cael eu hethol mewn ffordd sy'n gwella cyfranoledd ledled y rhanbarth yn ei chyfanrwydd. Felly gall pob etholwr fwrw dwy bleidlais: un ar gyfer ei ymgeisydd etholaeth dewisol ac un ar gyfer y blaid sydd orau ganddo ar lefel ranbarthol. Mae rhagor o fanylion am y broses ar gael ar: Sut y caiff yr Aelodau eu hethol? (senedd.cymru)

| **60 Aelod yn y Senedd** | |
|---|---|
| Caiff 40 eu hethol o etholaethau unigol | Caiff 20 eu hethol o ranbarthau ehangach |

| **Gall pob etholwr fwrw dwy bleidlais** | |
|---|---|
| Un ar gyfer ei ymgeisydd etholaeth dewisol | Un ar gyfer y blaid sy'n well ganddo ar lefel ranbarthol |

# Pam ddylech chi adeiladu perthynas gyda darpar Aelodau o'r Senedd?

Gallwch ymgysylltu â phobl sy'n gwneud penderfyniadau a gwleidyddion ar unrhyw adeg, ond mae etholiadau'n rhoi cyfle i chi adeiladu perthynas a sicrhau eich bod yn cael eich cynrychioli.

Mae llawer o bethau da y gall AS wneud i chi, felly mae adnabod y rhai yn eich ardal chi'n ddefnyddiol. Dyma rai ffyrdd y gall AS weithio i'ch cefnogi chi:

- **Hyrwyddo eich materion yn Senedd Cymru a chyda Llywodraeth Cymru** - mae hyn fwy na holi cwestiynau a chodi pryderon, mae hefyd yn cynnwys bod yn aelodau pwyllgorau, craffu deddfwriaeth a sicrhau'n gyffredinol bod eich pwyntiau'n cael eu clywed.
- **Gorfodi Llywodraeth Cymru i ymateb i faterion** - os ydych yn cael trafferth gydag adran Llywodraeth Cymru ar fater allweddol, gall ASau ofyn cwestiwn ffurfiol i'r Gweinidog neu'r Dirprwy Weinidog, ac mae'n rhaid iddynt ymateb.
- **Creu perthnasau** - helpu i gyflwyno chi i weinidogion Llywodraeth Cymru, pobl sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol a busnesau - mae'n anhygoel pwy fydd yn ymateb i'r AS!
- **Helpu gydag adeiladu eich proffil a sicrhau sylw yn y wasg** - gall AS sy'n dod i ddigwyddiadau (ar-lein neu wyneb yn wyneb) roi dyfyniadau a helpu i sicrhau sylwebaeth yn y newyddion am eich gweithgareddau pob dydd.
- **Ymweld â'r Senedd** (unwaith y mae adeiladau cyhoeddus ar agor eto) - os hoffech gynnal digwyddiad yn y Senedd, gall ASau helpu i drefnu hyn - fydd yn ei dro'n gallu helpu ASau eraill i ymgysylltu ar faterion sy'n bwysig i chi.
- **Gwneud gwaith achos** - darparu cefnogaeth ac eiriolaeth i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

# Manteisio i'r eithaf ar eich darpar ASau

Mae pleidleisio'n bwysig, ond mae hefyd dim ond megis dechrau ar yr hyn mae'n ei olygu i gyfrannu'n ystyrlon at ddemocratiaeth.

**Cyn ymgysylltu â darpar ASau yn y cyfnod cyn etholiad, meddyliwch am pam yr ydych eisiau gweithredu.**

Mae'n ddefnyddiol i gymryd amser i bennu pa fath o berthynas yr hoffech ei chael, y deilliannau yr hoffech eu gweld a sut i gynnwys eich tîm, eich cefnogwyr a'ch cleientiaid o'r cychwyn cyntaf.

**Dyma gwestiynau defnyddiol i chi eu hystyried am hyn:**

**Q.** Beth yw eich nod?

**Q.** Yw tueddiadau yn eich gwaith yn cael eu heffeithio gan benderfyniadau Llywodraeth Cymru?

**Q.** A fyddai'ch cleientiaid yn elwa ar waith achos?

**Q.** Oes unrhyw beth arall y gallech chi/nhw helpu gydag o bosib?

**Q.** Pwy yn eich sefydliad allai elwa ar gwrdd ag AS neu rannu ei stori?

**Q.** Yw eich AS yn debygol o newid? A yw'n deall eich materion?

Efallai y byddwch yn awyddus i ymgysylltu gyda'ch AS lleol, ond nid gyda phob ymgeisydd - mae hynny'n iawn! Yn syml, gallwch fod mewn cyswllt gyda'r ymgeiswyr sy'n fwyaf tebygol o ennill. Ar gyfer etholiadau'r Senedd, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi feddwl am y ffordd rydych yn ymgysylltu gydag ymgeiswyr rhanbarthol, yn ogystal â'ch ymgeiswyr lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn amhleidiol a sicrhau nad ydych yn cael eich ystyried fel rhywun sy'n cefnogi unrhyw ymgeisydd neu blaid drwy eu ffafrio heb "reswm amhleidiol" i wneud hyn. Nid yw hyn yn eich atal rhag ymgysylltu'n breifat gydag unrhyw ymgeiswyr.

## Cyswllt cychwynnol gydag ymgeiswyr:

Pan fyddwch yn gwahodd ymgeiswyr, mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod iddynt am eich cymwysterau fel eu bod yn gwybod pam ddylen nhw gwrdd â chi. Byddant yn penderfynu beth i'w wneud ar fyr rybudd yn ystod ymgyrch etholiad. Os ydych yn trefnu gweithgaredd ar-lein neu wyneb yn wyneb, er mwyn rhoi'r cyfle gorau i chi eich hun o sicrhau presenoldeb yr ymgeisydd, gall fod yn ddefnyddiol i:

- **Bwysleisio eich cysylltiadau gyda'r etholaeth neu'r rhanbarth y maent yn ei chynrychioli** - ai dyma ble rydych chi'n gweithio? Ydych chi'n cynnal gweithgareddau yno? Ai fan hyn mae eich defnyddwyr gwasanaeth yn byw? Eich ymgeiswyr etholaeth lleol fydd â'r cysylltiadau agosaf gyda'ch ardal leol, ond bydd gan ymgeiswyr rhanbarthol perthnasol ddiddordeb yn eich ardal hefyd.
- **Trafodwch niferoedd** - gall hyn swnio'n ddybryd, ond mae ymgeiswyr yn cystadlu am bleidleisiau. Faint o staff, gwirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth sydd gennych? Faint o bobl ydych chi wedi'u cofrestru i bleidleisio? Gall hyn fod yn benodol ddefnyddiol os yw'n sedd ymylol.
- **Rhannwch wybodaeth bwysig arall** - a fyddwch chi'n gwahodd y wasg? A fyddwch chi'n gwahodd y cyhoedd neu arweinwyr cymunedol allweddol? A fyddwch chi'n cwrdd ag ymgeiswyr eraill? Pwy arall fydd yn bresennol yn y digwyddiad? Ydych chi'n cefnogi pobl i bleidleisio na fyddai'n pleidleisio fel arall? Yw hyn yn fater yr ydych chi'n gwybod sy'n bwysig iddyn nhw?

Bydd yr holl bethau hyn yn helpu a bydd yn ddefnyddiol atgoffa'r ymgeiswyr am y rhain pan fyddwch yn cwrdd â nhw. Os nad ydych chi'n clywed yn ôl, codwch y ffôn.

Os nad ydych chi'n credu y byddwch yn gallu trefnu'r digwyddiad neu'r cyfarfod yn ystod yr etholiad, gallwch fynychu llwyfannau etholiad i ddysgu am farn ymgeiswyr ar faterion neu ofyn iddynt gwrdd â chi ar ôl cael eu hethol.

## Dylunio eich gweithredu gyda darpar ASau:

I fanteisio i'r eithaf ar eich gweithredu, dylai'r wybodaeth ganlynol eich helpu i feddwl am y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni eich nodau a sicrhau'r canlyniad delfrydol i chi.

## Cwestiynau i weithio drwyddynt wrth ddylunio gweithredu:

**Sut gallwch chi gael ymateb gan ymgeiswyr?** Dylid dylunio gweithredu er mwyn cael ymateb; boed hynny mewn cyfarfod, newid mewn ymddygiad neu ymrwymiad i berthynas. Beth ydych chi eisiau i ddigwydd?

**Pwy yw eich targed penodol?** Ceisiwch ddeall pwy yw eich ymgeiswyr, beth maen nhw eisiau a pham y dylent wrando arnoch chi. Ydych chi'n canolbwyntio ar un neu ddau o ymgeiswyr, neu ydych chi'n awyddus i ymgysylltu â phawb? Bydd angen i chi feddwl p'un a fyddwch yn canolbwyntio ar eich etholaeth eich hun, neu'n ceisio ymgysylltu gydag ASau rhanbarthol arfaethedig hefyd.

**Mewn termau clir, beth yw eich cais?** Gall fod mor syml â chytuno i fynychu eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (AGM) neu gwrdd â chi pob chwe mis, i herio adran Llywodraeth Cymru neu i greu perthynas ddefnyddiol. Os bydd y gweithredu'n mynd yn dda, byddwch yn barod rhag ofn y bydd yr ymgeisydd yn awyddus i wneud mwy - mae'n ddefnyddiol cael senario gorau a gwaethaf yn eich pen ymlaen llaw.

**A fydd y gweithgaredd yn dangos chi ar eich gorau?** Y gweithredu gorau yw'r rhai lle mae'r trefnwyr yn gyfforddus ac yn gallu bod yn nhw eu hunain (ac os yw'r targed ychydig y tu allan i'w gwaith bob dydd). Does dim angen i chi gael cyfarfod ffurfiol gan fod AS yn mynychu os nad yw hyn yn addas i chi. Yn dibynnu ar gyfyngiadau pellter cymdeithasol ar yr adeg, os yw'n ddiogel, efallai y byddech yn awyddus i feddwl am wahodd ymgeiswyr i sesiwn galw heibio neu i ymweld â'ch gwasanaethau allgymorth. Meddyliwch am beth fyddai'n gweithio orau i'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw.

**Sut gall eich gweithgaredd fod yn ystyrlon neu'n hwyliog?** Nid yw gweithredu da'n ddiflas! Gall fod yn anoddach i feddwl am ffyrdd i ymgysylltu ag ASau ar-lein, ond peidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar rywbeth sy'n wahanol i gyfarfod safonol. Meddyliwch y tu allan i'r blwch. Beth fydd yn gwneud i chi sefyll allan a sicrhau y byddant eisiau gweithio gyda chi os cânt eu hethol?

**Sut gallwch chi ddatblygu arweinwyr?** Gall gweithredu fod yn gyfleoedd datblygu gwych. Meddyliwch am eich pobl a phwy fyddai'n elwa o bosibl o'r profiad o gael pŵer traddodiadol (ar ffurf darpar ASau) i wrando arnynt ac ymateb i'w materion a'u ceisiadau, yn ogystal â phwy fyddai'n elwa o bosibl ar helpu gyda'r trefniadau.

**Beth yw'r camau nesaf?** Mae unrhyw weithredu yr ydych yn ei gynnal yn ddim ond un cam (gobeithio!) mewn perthynas hirach. Meddyliwch am sut mae hyn yn ffitio i mewn i'r strategaeth ehangach a beth fydd angen i chi eich dau ei wneud i ddilyn i fyny.

## Ar ôl yr etholiad

Mae'n bwysig dilyn i fyny gyda'r AS ar ôl iddo gael ei ethol i ddweud llongyfarchiadau, ac i'w atgoffa o'r hyn y mae wedi addo ei wneud - neu i ail-ymgysylltu ag ef/hi os na gytunodd i'ch cais gwreiddiol.

Os hoffech fod yn fwy creadigol nag anfon llythyr, meddyliwch am ffyrdd hwyliog i'w llongyfarch nhw a chael eu sylw - er enghraifft, anfonwch gerdyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyda llun o phan gwnaethoch gwrdd, neu meddyliwch am weithrediad "croeso i'ch swydd newydd" gan ddefnyddio'r cwestiynau cynllunio uchod. Wrth ddilyn i fyny, rhowch y ddiweddaraf iddyn nhw ar beth rydych wedi'i wneud ers eich cyfarfod, ac awgrymwch y ffordd nesaf i ymgysylltu â nhw yn y dyfodol.

"

**Gall gweithrediadau fod yn gyfleoedd datblygu gwych. Meddyliwch am y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw a phwy all elwa o'r profiad o gael pŵer traddodiadol i wrando arnyn nhw ac ymateb i'w materion.**

# Sut allwch chi gefnogi pobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth i bleidleisio?

Mae helpu eich defnyddwyr gwasanaeth i bleidleisio yn ffordd o sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

**Rhaid i chi fod wedi cofrestru i bleidleisio. Bydd angen i bleidleiswyr yn etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021 gofrestru i bleidleisio erbyn 19 Ebrill 2021. Eleni, bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd am y tro cyntaf.**

## Cymhwysedd

Gall unrhyw un sydd wedi cofrestru bleidleisio, os ydynt yn 16 oed neu hŷn, os ydynt yn byw yng Nghymru ac os nad ydynt wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag pleidleisio.

## Sut ydych chi'n cofrestru i bleidleisio a sut gallwch chi sicrhau bod eich cleientiaid wedi cofrestru?

Os oes gennych gyfeiriad parhaol ac yn gwybod eich rhif yswiriant gwladol, mae cofrestru i bleidleisio'n syml iawn, ac ni fydd yn cymryd mwy na 5 munud ar-lein.

Gallwch gefnogi cleientiaid i wneud hyn yn gyflym trwy ddilyn y cyfarwyddiadau yma: gov.uk/register-to-vote

Neu gallwch lawrlwytho'r ffurflenni papur i gofrestru ac anfon ceisiadau yma: gov.uk/government/collections/register-to-vote-paper-forms

## Wyddoch chi?

**Os NAD oes gennych chi neu'ch cleientiaid gyfeiriad parhaol, mae llawer o ffyrdd i gofrestru i bleidleisio.** Mae hyn yn benodol bwysig i elusennau a gwasanaethau gadw mewn cof, gan y gallent ddarparu cyfeiriad i gleientiaid gofrestru arno drwy lenwi "Ffurflen Datgan Cysylltiad Lleol". Mae hyn hefyd yn golygu y GALLWCH chi fod yn gymwys i bleidleisio os ydych yn ddigartref, yn derbyn triniaeth iechyd meddwl preswyl, yn rhan o'r gymuned sipsiwn neu deithwyr ac os ydych yn y ddalfa (ond heb eich cael yn euogfarnedig).

Gall unrhyw un ofyn i guddio eu manylion ar y gofrestr etholiadol, ond gallwch hefyd gefnogi pobl i gofrestru'n ddienw os ydynt yn poeni am eu diogelwch. Bydd angen tystiolaeth arnynt i gefnogi hyn, felly mae'n bosib y byddwch yn gallu eu helpu i gael datganiad ysgrifenedig gan unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig (meddyg, nyrs neu fydwraig) neu reolwr lloches.

Mae llawer o adnoddau ar gefnogi pobl gydag anableddau ac anghenion ychwanegol i bleidleisio - megis everyvotecounts.org.uk

**Mae pobl sydd â diffyg capasiti meddyliol yn dal yn gymwys i bleidleisio.** Nid yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy'n cyflwyno fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran pobl sy'n cael eu hystyried fel rhai sydd heb gapasiti meddyliol i wneud penderyfniadau, yn berthnasol i bleidleisio. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, bod gan rywun sy'n cael eu dal dan Ddeddf Iechyd Meddwl neu ar Orchymyn Triniaeth Cymunedol, neu unigolyn gyda demensia all fod heb gapasiti o bosib, yr un hawl i bleidleisio â phawb arall. Bydd dal angen iddynt gofrestru, a gall fod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt i bleidleisio hefyd (er enghraifft, cael mynediad i orsaf bleidleisio).

## Sut gallwch chi gefnogi cleientiaid i bleidleisio?

Gallwch helpu cleientiaid i bleidleisio wyneb yn wyneb (os yw hyn yn opsiwn) neu, os nad yw hyn yn bosibl, i bleidleisio drwy'r post neu gael pleidlais drwy ddirprwy.

Efallai y byddwch yn awyddus i sicrhau bod cleientiaid yn cofrestru ar gyfer pleidlais drwy'r post os na fyddwch yn eu gweld ar ddiwrnod pleidleisio ac yn gwybod ei bod hi'n anhebygol y byddant yn cofio pleidleisio. Mae'n debygol y bydd pleidleisiau drwy'r post yn benodol bwysig ac yn fwy poblogaidd oherwydd cadw pellter cymdeithasol.

Os na allent bleidleisio oherwydd rhesymau meddygol, mae'n bosib y byddant yn gofyn i chi neu aelod o'ch staff gyflwyno pleidlais drwy ddirprwy ar eu rhan. Eleni, bydd hi'n bosib gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy brys os nad yw pleidleisiwr neu'r dirprwy enwebedig yn gallu cymryd rhan yn bersonol oherwydd rhesymau'n ymwneud â'r coronafeirws.

Mae rhagor o fanylion ar bleidleisio drwy'r post a thrwy ddirprwy ar gael yma: gov.uk/voting-in-the-uk

"

# Os nad oes gennych chi neu'ch cleientiaid gyfeiriad parhaol, mae nifer o ffyrdd i gofrestru i bleidleisio.

**Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i bleidleisio – cwestiynau allweddol i feddwl amdanynt:**

Q

Pam mae hi'n bwysig bod eich cleientiaid yn gallu pleidleisio?

Oes pobl yr ydych yn gweithio gyda nhw na fyddai o bosib yn gallu pleidleisio heb gymorth?

Beth sydd angen i chi feddwl amdano er mwyn cefnogi pleidleiswyr i gofrestru?

A fydd hi'n well gan eich cleientiaid i bleidleisio wyneb yn wyneb (os bydd yn cael ei ganiatau), drwy'r post neu drwy ddirprwy? Beth yw eich rôl yn hyn o beth fel gwasanaeth? Mae'n debygol y bydd cofrestru i bleidleisio drwy'r post yn benodol bwysig eleni.

Oes ffyrdd y gallwch chi ymgorffori cofrestru i bleidleisio a phleidleisio yn eich gweithgareddau pob dydd? Er enghraifft, cofrestru pobl i bleidleisio ochr yn ochr â'r gefnogaeth yr ydych eisoes yn ei darparu? Allwch chi gyflwyno sesiwn ar bleidleisio a'r etholiad yn rhan o'ch gweithgareddau pob dydd?

Faint o amser neu gefnogaeth ychwanegol allai fod angen arnoch i wneud hyn?

# Aros ar ochr iawn y Comisiwn Elusennau - deall y pethau cyfreithiol

Mae'r Ddeddf Lobïo yn golygu bod rheolau o ran pwy sy'n gallu a ddim yn gallu ymgyrchu mewn etholiad heb gofrestru fel sefydliad gwleidyddol. Os ydych yn gwario llai na £10,000 ar ymgyrchu, ni ddylai fod angen i chi gofrestru - felly mae'n annhebygol o effeithio bron pob elusen fach. Mae hefyd yn glir iawn y gall elusennau ymgyrchu dros newid yn y gyfraith, polisi neu benderfyniadau lle byddai newid o'r fath yn cefnogi dibenion yr elusen. Gall elusennau hefyd ymgyrchu i sicrhau bod cyfreithiau presennol yn cael eu dilyn. Dylai hyn fod yn berthnasol i'r holl weithgareddau a nodir yn y daflen hon, ac ni ddylid eich stopio rhag penderfynu adeiladu perthynas gyda'ch ymgeiswyr posibl.

Fodd bynnag, mae dal rheolau sydd angen i chi eu cadw mewn cof. Dyma'r rheolau bras i chi fel sefydliad yn y cyfnod cyn etholiad:

- Mae angen i chi fod yn amhleidiol
- Ni allwch gefnogi unrhyw ymgeiswyr
- Ni allwch hyrwyddo polisïau ymgeiswyr penodol
- Ni allwch ddweud wrth gleientiaid dros bwy y dylent bleidleisio
- Ni allwch gael eich gweld yn gwneud unrhyw un o'r uchod (e.e. gellid ystyried gwahodd dim ond un ymgeisydd i siarad mewn digwyddiad cyhoeddus yn gefnogaeth bersonol i'r ymgeisydd hwnnw, hyd yn oed os nad ydych yn dweud "pleidleisiwch dros XX")

Mae'n bwysig iawn nad yw staff neu gynrychiolwyr eraill yn rhannu eu barn wleidyddol wrth gynrychioli'r elusen - yn benodol ar y cyfryngau cymdeithasol - ac ni ddylid rhannu unrhyw beth all gael ei ystyried fel rhywbeth sy'n cefnogi ymgeisydd neu blaid ar unrhyw sianel ble rydych hefyd yn nodi eich swydd neu gyflogwr (er mwyn bod yn sâff). Mae'n arfer da i gael polisi cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'i ddiffinio'n dda er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Ni ddylai hyn eich atal rhag cymryd rhan. Mae'r adnoddau gan bond.org.uk yn rhoi cefnogaeth fanwl i elusennau.

# Mae gan elusennau bach fewnwelediad gwerthfawr, defnyddiwch eich un chi i wneud gwahaniaeth.

LLOYDS BANK FOUNDATION
England & Wales

Mae Sefydliad Banc Lloyds Cymru a Lloegr yn gweithio mewn partneriaid gydag elusennau bach a lleol sy'n helpu pobl i oresgyn materion cymdeithasol cymhleth. Drwy ariannu costau craidd, cefnogaeth ddatblygiadol a dylanwadu polisi ac arferion, mae'r Sefydliad yn helpu elusennau i wneud gwahaniaeth fydd yn newid bywydau.

Yn ystod 2020, dyfarnodd y Sefydliad £24.8m i elusennau bach a lleol sy'n helpu pobl sy'n wynebu anfanteision. Gydag amgylchiadau digynsail y coronafeirws, mae mwy o angen ar gyfer yr elusennau hyn nag erioed. Mae'r Sefydliad yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol a ariennir gan elw Grŵp Bancio Lloyds.

**lloydsbankfoundation.org.uk**

**@LBFEW**

**/lloydsbankfoundation**


**Cysylltwch â ni:**

Pentagon House
52-54 Southwark Street
Llundain SE1 1UN
enquiries@lloydsbankfoundation.org.uk



Rhif Elusen Gofrestredig 327114.
Cwmni Cyfyngedig gan Warant,
Cofrestredig yng Nghymru a
Lloegr. Rhif Cwmni 1971242.